**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

23 Mawrth 2026

Annwyl Bennaeth Cynllunio,

Rwy'n ysgrifennu i roi eglurhad ar y fframwaith Polisi Cynllunio presennol sydd ar waith mewn perthynas â diogelu meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon eraill. Mae'r llythyr hwn yn atgoffa'r Awdurdodau Cynllunio o'r polisïau perthnasol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr Rheoli Datblygu y gallai fod angen eu hystyried wrth asesu cynigion datblygu a allai effeithio ar glybiau chwaraeon a lleiniau chwarae presennol.

Mewn rhai achosion lle mae datblygiad newydd wedi'i ganiatáu a'i adeiladu ger caeau criced neu glybiau golff, mae cwynion niwsans statudol wedi codi naill ai oherwydd ergydion pêl neu sŵn o adeiladau clybiau chwaraeon. Mae hyn wedi arwain at gostau sylweddol i'r clybiau i roi mesurau lliniaru ar waith a allai effeithio ar eu hyfywedd yn y dyfodol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (ar gael fan hyn: [Polisi Cynllunio Cymru | LLYW. CYMRU)] yn nodi'r fframwaith polisi cenedlaethol mewn perthynas â defnydd tir, gan gynnwys diogelu meysydd chwarae, cyfleusterau hamdden, ac asedau cymunedol eraill. Amlygir pwysigrwydd cyfleusterau hamdden i iechyd, llesiant a datblygiad cymdeithasol cymunedau ym Mharagraff 4.5 o Bolisi Cynllunio Cymru.

Mae paragraff 3.55 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid datblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn sensitif heb osod cyfyngiadau diangen ar fusnesau a gweithgareddau cyffiniol sydd ag angen y lleoliad penodol hwnnw arnyn nhw. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr egwyddor cyfrwng newid yn ystyriaeth berthnasol.


Mae egwyddor cyfrwng newid yn nodi mai'r busnes neu'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno newid sy'n gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. O ran datblygu ger lleiniau neu feysydd chwarae, mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ddatblygwr sicrhau bod mesurau yn eu lle i atal mynediad i'w safle, neu sŵn o seilwaith cyfagos sy'n bodoli eisoes fel adeiladau clybiau chwaraeon, fel rhan o'r datblygiad.

Felly, yn unol â'r cyfrwng newid, dylai prif Awdurdodau Cynllunio geisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau posibl ger caeau chwaraeon, cyfleusterau hamdden neu ddefnyddiau tebyg, yn blaenoriaethu mesurau dylunio a lliniaru er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng defnydd tir.

Mae Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 [Y Gorchymyn] yn nodi, pan fo datblygiad yn cael ei gynnig sy'n debygol o amharu ar ddefnydd tir, neu arwain at golli defnydd tir, sy'n cael ei ddefnyddio fel maes chwarae, rhaid i awdurdodau cynllunio ymgynghori â Cyngor Chwaraeon Cymru (a elwir Chwaraeon Cymru).

Mae'r Gorchymyn yn diffinio llain chwarae fel y cyfan o safle sy'n cwmpasu o leiaf un llain chwarae, ac ystyr "llain chwarae"  yw man wedi ei amlinellu yn benodol sydd, ynghyd ag unrhyw arwynebedd ymylol, yn 0.2 hectar neu'n fwy, ac a ddefnyddir ar gyfer pêl-droed y gymdeithas, pêl-droed Americanaidd, rygbi, criced, hoci, lacrós, rownderi, pêl fas, pêl feddal, pêl-droed Awstralaidd, pêl-droed Gwyddelig, bando, hyrli, polo neu polo beic.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**